TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# Cyflwyniad i Farbro



**Yn gryno**

Mae'r cwrs hwn yn arwain dechreuwyr pur trwy sgiliau sylfaenol ar gyfer torri gwallt dynion, gan gynnwys technegau siswrn a chlipwyr.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

..... rydych chi'n ddechreuwr pur sy'n dymuno cael cyflwyniad i dorri gwallt dynion.

..... rydych chi'n driniwr gwallt sy'n dymuno datblygu eich sgiliau a'ch technegau ar gyfer torri gwallt dynion.

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Bydd y cwrs hwn yn eich helpu i ddeall ffasiynau ymdaclu dynion a bydd yn eich cyflwyno i ystod o dechnegau a gwasanaethau a gynigir gan y barbwr cyfoes.

Byddwch chi'n dysgu:

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Sgiliau sylfaenol ar gyfer defnyddio crib, siswrn a chlipwyr
Gofalu am y cleient ac ymgynghori ag ef
Gofalu am gyfarpar a'i ddefnyddio'n ddiogel
Sut i dorri, trimio a steilio gwallt

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

Cewch gyngor ar brynu cyfarpar a blociau i ymarfer eich sgiliau yn ystod wythnos gynta'r cwrs.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Ar ôl llwyddo i gwblhau'r cwrs, os hoffech chi barhau i ddatblygu eich set sgiliau, gallwch symud ymlaen i gwrs NVQ Lefel 2 mewn Torri Gwallt Dynion.